Prosiect bTB Gogledd Cymru
North Wales bTB Project



# Cymryd Camau i Reoli Risgiau bTB

Ariennir gan **Lywodraeth Cymru**
Funded by **Welsh Government**


# Cynnwys


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | 2 |
| **Cyflwyno Prosiectau TB Gwartheg Sir Benfro a Gogledd Cymru** | 3 |
| **Rheoli risgiau TB gwartheg ar ffermydd** | 3 |
| **Roger Lewis, Poyerston, Penfro** | 8 |
| **Evan Roberts, Tŷ Newydd, Treffynnon** | 9 |
| **Ed Clements, Broomhill, Martletwy** | 10 |
| **Roger Ridgway, Clovers Farm, Treletert** | 11 |
| **Eurig Jones, Hendre, Ynys Môn** | 12 |
| **David a Debbie Best, Treathro, Abergwaun** | 13 |
| **Michael Williams, Fagwrfran East, Cas-mael** | 14 |
| **Geraint Owen, Sandilands, Tywyn** | 15 |
| **Paul Williams, Cae Haidd, Llanrwst** | 16 |
| **Barn Milfeddyg – Brendan Griffin, Fenton Vets ac Iechyd Da** | 17 |
| **Ymchwil bTB** | 19 |
| **Gwybodaeth am TB gwartheg** | 22 |
| **Geirfa** | 24 |




# Cyflwyniad

Y Athro Glyn Hewinson
CBE, FLSW



Mae twbercwlosis gwartheg (bTB) yn parhau i fod yn un o'r heriau iechyd anifeiliaid mwyaf cymhleth sy'n wynebu Cymru, sy'n effeithio ar dda byw, bywyd gwyllt a chymunedau gwledig. Mae Prosiect Sir Benfro a Phrosiect TB Gwartheg Gogledd Cymru yn dod â ffermwyr, milfeddygon, academyddion a llunwyr polisïau at ei gilydd mewn ymdrech ar y cyd, ar sail tystiolaeth, i ddeall a rheoli'r afiechyd yn well.

Mae Prosiect Sir Benfro yn gynllun i alluogi ffermwyr a milfeddygon i reoli twbercwlosis gwartheg ar lefel leol. Mae'n canolbwyntio ar ddefnyddio data sy'n benodol i'r fferm, canlyniadau profion croen yn neilltuol, ochr yn ochr â bioddiogelwch ymarferol a dulliau newid ymddygiad i gefnogi rheoli mwy effeithiol, ar sail tystiolaeth, ar yr afiechyd.

Nod Prosiect TB Gwartheg Gogledd Cymru yw gwella'r ddealltwriaeth o ddeinameg twbercwlosis gwartheg ar draws systemau ffermio gwahanol yn y rhanbarth. Un o brif amcanion y prosiect yw helpu i gadw'r afiechyd allan trwy roi cymorth i ddynodi risgiau yn gynnar, cryfhau bioddiogelwch yn benodol ar ffermydd, a hyrwyddo arferion ar sail tystiolaeth sy'n lleihau'r tebygolrwydd y bydd bTB yn cael ei gyflwyno ac yn lledaenu.

Mae effaith y gwaith hwn yn cael ei gydnabod tu hwnt i Gymru yn barod: cyfeiriwyd at Brosiect Sir Benfro yn Adolygiad Godfray yn ddiweddar o TB gwartheg yn Lloegr ac yn strategaeth TB gwartheg Gogledd Iwerddon, gan amlygu ei werth fel model o reoli afiechyd integredig, ar sail gwyddoniaeth, y gellir ei weithredu ar y fferm gan y ffermwr trwy weithio ochr yn ochr a'u milfeddyg.

**Yr Athro Glyn Hewinson**
CBE, FLSW

# Cyflwyno Prosiectau TB Gwartheg Sir Benfro a Gogledd Cymru



## Rheoli risgiau TB gwartheg ar ffermydd

Ganwyd Prosiect Sir Benfro o benderfyniad ffermwyr a'u milfeddygon i gymryd mwy o reolaeth dros TB ar eu ffermydd eu hunain. Creodd y prosiect arloesol hwn ddull cydweithredol cryf o reoli TB rhwng ffermwyr, milfeddygon a'r byd academaidd, a gosododd y sylfeini ar gyfer datblygiad dilynol dull cydweithredol tebyg, sy'n briodol yn epidemiolegol, o reoli TB yng ngogledd Cymru.

Roedd sefyllfa TB ymhlith gwartheg yn Sir Benfro wedi mynd yn ddifrifol erbyn 2019. Roedd y sir yn cyfrif am ddwy ran o dair o fuchesi â phrofion TB cyson a thua 40% o'r holl adweithyddion a ddatgelwyd yng Nghymru. Yn yr un modd, roedd pryder cynyddol ynghylch cynnydd mewn achosion o bTB a'i ledaeniad i ardaloedd â llai o TB, yng ngogledd Cymru. Roedd ffermwyr a milfeddygon eisiau cadw'r clefyd allan neu ei ddileu cyn gynted â phosibl. Teimlai llawer o ffermwyr yn gynyddol unig wrth i'r clefyd dynhau ei afael, gan gryfhau eu penderfyniad i gydweithio ac ennill mwy o reolaeth.

Yng Nghynhadledd TB Aber yn 2019, daeth llawer o unigolion brwdfrydig ynghyd ac fe arweiniodd eu trafodaethau at gyflwyno cynllun treialu Enferplex Cymru.

Roedd yn caniatáu defnydd preifat o brawf gwrthgyrff bTB Enferplex mewn cynllun treialu mewn buchesi â statws 'heb bTB' a buchesi a effeithiwyd gan bTB yng Nghymru. Nod y cynllun treialu yw defnyddio data profion croen anifeiliaid unigol a'r prawf Enferplex i ddynodi a rheoli anifeiliaid â risg uchel o bTB allan o'r buchesi yma.

Roedd y cynllun treialu yn anelu at ddynodi anifeiliaid risg uchel yn well ar gyfer profi eu gwaed. Gan ddefnyddio'r data profion croen oedd yn bodoli, roedd MV Diagnostics wedi datblygu algorithm o'r enw "RiskRate" oedd yn creu sgôr risg bTB unigol ar gyfer pob anifail yn y fuches.

Daeth yn amlwg yn fuan fod RiskRate yn fwy na chymorth diagnostig. Gall hefyd fod yn offeryn rheoli buches pwerus sy'n gallu tynnu sylw at y risg o haint bTB gweddilliol mewn buches a chefnogi gwneud penderfyniadau gwybodus ar lefel y fferm. Mae RiskRate yn cael ei dreialu ar ffermydd ar hyn o bryd trwy'r ddau brosiect. Trafodir yr adborth a'r canlyniadau yn y llyfryn hwn.

## Llunio dull newydd

Esblygodd y ffordd orau o lunio dull newydd o drafodaethau cyson gyda rhanddeiliaid allweddol. Roedd y rhain yn cynnwys Ffermwyr, Milfeddygon, Undebau Ffermio ac arbenigwyr academaidd yng Nghanolfan Ragoriaeth ar gyfer TB Gwartheg Sêr Cymru a chynrychiolwyr Llywodraeth Cymru. Un o'r canlyniadau hyd yma fu cefnogi'r ddau brosiect TB pwrpasol hyn i gefnogi a grymuso ffermwyr a milfeddygon i gymryd mwy o reolaeth dros risgiau bTB ar eu ffermydd.



**Roedd corff cynyddol o dystiolaeth yn awgrymu, er y gallai bywyd gwyllt fod wedi cyflwyno bTB mewn rhai ardaloedd, roedd heintiad gweddilliol mewn buchesi yn awr yn un o'r prif yrwyr i barhad yr afiechyd sy'n golygu bod angen ymyriadau ar y fferm gan gynnwys ffocws ar fioddiogelwch.**

Ar yr un pryd, gan weithio mewn partneriaeth ag Iechyd Da, datblygwyd Cefn Gwlad Solutions ap asesu risg bioddiogelwch o'r enw "HerdSafe" sy'n cynhyrchu sgôr risg wedi'i phwysoli ar gyfer ffermydd unigol. Mae'r ap yn cael ei dreialu ar ffermydd y prosiect fel rhan o'r gwaith hwn.

## Grymuso ffermwyr a milfeddygon

Mae harneisio'r gallu i wneud penderfyniadau gwybodus gyda chefnogaeth yr offer RiskRate a HerdSafe wedi dod yn elfennau craidd o'r ddau brosiect. Gyda'i gilydd, maen nhw'n grymuso ffermwyr a milfeddygon i:

- Ddynodi a rheoli risg bTB yn fwy cywir
- Targedu haint gweddilliol mewn buchesi
- Gwella bioddiogelwch ar ffermydd

Mae mabwysiadu'r dull hwn a arweinir gan ffermwyr a milfeddygon yn newid sylfaenol mewn ffordd o feddwl – o orfodi i rymuso. Mae bwrdd cyflawni'r ddau brosiect yn cynnwys ffermwyr a milfeddygon, ynghyd â'r partneriaid cyflawni milfeddygol a Phrifysgol Aberystwyth. Mae'r grwpiau'n cydweithio i wneud penderfyniadau sy'n ymwneud â'r prosiectau.

## Gyda diolch

Ein diolch diffuant i bawb sydd wedi cyfrannu at y gwaith hwn hyd yn hyn – mae gormod i'w henwi'n unigol. Drwy gydweithio fel tîm brwdfrydig ac ymarferol, gallwn sbarduno newid go iawn a helpu i leihau baich bTB i ffermwyr y dyfodol.

## Y dull HerdSafe

Datblygwyd y rhaglen HerdSafe (gan Iechyd Da) fel offeryn i filfeddygon ei ddefnyddio mewn cydweithrediad â'u ffermwyr, gan ddilyn y camau hyn:


1. Mae pob fferm yn cael ymweliad bioddiogelwch ar ddechrau'r prosiect ac yn derbyn sgôr risg wedi'i phwysoli ar gyfer pob risg bioddiogelwch.

2. Rhoddir cyfanswm sgôr risg ar gyfer pob fferm. Cynhyrchir adroddiad i'r diben yn amlinellu ychydig o gamau gweithredu y cytunir arnyn nhw, ynghyd â'r newid disgwyliedig yn y sgôr risg.

3. Mae'r milfeddyg yn defnyddio'r ap i ddangos effaith yr arferion ffermio bioddiogel arfaethedig ar y sgoriau risg wedi'u pwysoli.

4. Yna cynhyrchir sgôr cyfanswm risg well a chyfradd sêr wedyn ar sail y camau gweithredu y cytunir arnyn nhw.

5. Defnyddir yr ap ar ymweliadau dilynol i asesu'r newidiadau a wnaed ar y fferm a monitro cynnydd.







## Y dull RiskRate a dadansoddi data (MV Diagnostics)

1. Mae 'RiskRate' yn defnyddio data mesur profion croen hanesyddol o bob anifail unigol a brofwyd mewn buches, ynghyd â dehongliad mwy sensitif o'r canlyniadau i ddynodi anifeiliaid risg uchel. Cynhelir y dadansoddiad dros oes yr anifail i benderfynu pryd (a pha mor aml) y caiff anifeiliaid unigol eu dynodi fel rhai sydd â risg uchel o gael eu heintio â bTB (*M. bovis*). Cyflwynir y data, sy'n cynyddu gyda nifer y profion, mewn system goleuadau traffig ar gyfer yr anifeiliaid unigol yn y fuches: coch, ambr a melyn. Cynghorir difa anifeiliaid coch (risg uchel) yn wirfoddol.
2. Mae milfeddygon yn dadansoddi'r data gyda'r ffermwyr. Gellir difa anifeiliaid a ddynodwyd fel rhai risg uchel ar adeg sy'n gyfleus i'r ffermwr, fel ar ddiwedd y cyfnod llaetha neu pan fyddan nhw'n ddi-ffrwyth. Fel arall, maen nhw'n gallu newid eu dull rheoli; er enghraifft, cymryd y llo ar unwaith neu loia gyda tharw biff. Yn aml, nodwyd bod gan yr anifeiliaid 'risg uchel' hyn broblemau iechyd eraill ar yr un pryd (e.e., mastitis, cloffni, clefyd Johne, SCC uchel, cyflwr gwael).

Cyflwynir canlyniadau'r RiskRate mewn tabl gyda'r anifeiliaid sydd â'r risg uchaf ar y brig. Mae graff o Gyfradd Risg y fuches hefyd yn dangos sut mae risg y fuches yn newid dros amser.




Ynghyd â RiskRate a HerdSafe, mae'r prosiectau hefyd yn hyfforddi milfeddygon a ffermwyr i wella eu gwybodaeth am bTB ac i ddynodi'r gofynion ymchwil pellach fel sydd angen.

## Astudiaethau achos

Mae'r astudiaethau achos o ffermydd sy'n cynrychioli'r amrywiaeth o ardaloedd risg bTB yng Nghymru – o ardal TB Uchel y de-orllewin o dan brosiect Sir Benfro, i'r ffermydd mwy dosbarthedig ym mhrosiect gogledd Cymru, gyda ffermydd yn y dwyrain 'TB uchel', y gogledd 'canolradd', a'r gogledd 'TB isel'. Mae'r lleoliadau hefyd yn cwmpasu amrywiaeth o leoliadau daearyddol – o ffermydd iseldir ger yr arfordir, i ffermydd mynyddig a mathau o fusnesau, megis buchesi llaeth a biff mwy, a buchesi sugno llai. Ar draws pob sefyllfa a math o fferm, mae'r ymwneud rhwng y ffermwr a'r milfeddyg yn allweddol. Fe'u gwelwyd yn datblygu dros gyfnod y prosiectau gan atgyfnerthu'r ymwneud hwn sydd bwysicaf wrth reoli clefydau ar lefel leol, sydd hefyd yn cefnogi cymunedau lleol. Mae cydweithio oddi mewn i'r prosiectau a rhyngddyn nhw hefyd wedi bod yn gryf.

Mae'r prosiectau'n canolbwyntio ar wneud penderfyniadau yn seiliedig ar "reoli'r rheoladwy"; h.y., camau gweithredu y gellir eu cyflawni ar bob fferm unigol, a hynny mewn ffordd bragmatig.

### Cymru Rhanbartholi TB




Dechreuodd Prosiect Sir Benfro ym mis Gorffennaf 2023, gan gynnwys chwe milfeddygfa a 15 fferm. Dilynodd Prosiect Gogledd Cymru yn 2024 gyda chwe milfeddygfa a 13 fferm. Mae'r astudiaethau achos a'r profiadau o'r ddau brosiect i'w gweld yn y tudalennau canlynol.

**Ardaloedd TB rhanbarthol**

- TB Uchel
- TB Canolradd
- TB Isel

# Roger Lewis, Poyerston, Penfro



Mae bod yn Fferm Prosiect Sir Benfro wedi fy ngalluogi i ddefnyddio dull sy'n cael ei yrru gan ddata i leihau risg TB fy fferm trwy dargedu rheolaeth anifeiliaid a gwell bioddiogelwch. Yn ganolog i'r strategaeth mae defnyddio dadansoddi cyfradd risg, lle mae anifeiliaid unigol yn cael eu dosbarthu yn Goch, Ambr neu Felyn ar sail hanes eu profion croen.

Mae'r dosbarthiad hwn yn fy ngalluogi i wneud penderfyniadau rheoli ar sail gwybodaeth. Mae'r rhain wedi cynnwys gwaredu 23 o anifeiliaid risg uchel yn wirfoddol yn y 10 mis diwethaf; osgoi magu stoc cyfnewid o fuchod a heffrod Coch neu Ambr; defnyddio ardal loia benodol ar gyfer anifeiliaid risg uchel; ac atal defnyddio colostrwm neu laeth trosglwyddo gan anifeiliaid risg uchel i heffrod cyfnewid.

Gan y gall anifeiliaid gwyllt fod yn llwybr posibl i drosglwyddo bTB, rydyn ni wedi gweithredu gwelliannau bioddiogelwch i atal moch daear rhag cael mynediad at y porthiant. Mae'r camau gweithredu rydyn ni wedi eu cymryd yn cynnwys gosod ffens drydan o gwmpas y clampiau porthiant gyda llinynnau ar 10cm, 20cm, a 30cm o'r ddaear. Yn ogystal, mae drysau storfeydd porthiant wedi'u gorchuddio â shîts gyda bylchau heb fod yn fwy na 7.5cm a'u gosod ar ddaear galed i gyfyngu ymhellach ar y mynediad.

Mae data ein fferm yn awgrymu y gall heintiad bTB ddigwydd yn ifanc iawn, yn nyddiau cyntaf oes y llo o bosibl. Er mwyn torri ar y llwybr trosglwyddo, mae'r holl golostrwm a llaeth trosglwyddo yn cael ei basteureiddio cyn ei borthi. Mae'r colostrwm yn cael ei gasglu, ei brofi am ei ansawdd, a'i basteureiddio, tra bod llaeth trosglwyddo o ddiwrnod dau i saith yn cael ei basteureiddio mewn grwpiau. O ddiwrnod wyth ymlaen, mae lloi yn cael powdr cyfnewid.

O ganlyniad i'r Prosiect, rydw i, am y tro cyntaf, wedi cael y grym i ymladd yn erbyn yr afiechyd llechwraidd hwn ar y fferm gyda chymorth fy milfeddyg, Brendan Griffin o Fenton Vets.

# Evan Roberts, Tŷ Newydd, Treffynnon



Fel rhan o Brosiect Gogledd Cymru, ynghyd â'm milfeddyg, Anna Williams o Milfeddygon Wern, fe wnaethon ni ddatblygu cynllun i leihau'r risg o bTB yn fy muches laeth. Fe wnaethon ni gerdded y fferm, gan ddefnyddio'r ap asesu risg bTB HerdSafe i roi sgôr i'r bioddiogelwch presennol a thrafod gwelliannau posibl. Un o'r penderfyniadau mwyaf dylanwadol oedd lleihau prynu gwartheg a'i gyfyngu i deirw magu yn unig a'u cael o fuchesi heb bTB am dros 10 mlynedd, gan ddefnyddio data'r offeryn mapio ibTB (gweler tudalen 23 Rhif i'w Gadarnhau)

Cam pwysig arall oedd gwella diogelwch y porthiant. Yn y gorffennol, roedd rhywfaint o borthiant yn cael ei gadw ar baledi ar y ddaear, a allai ddenu bywyd gwyllt fel moch daear yn rhwydd iawn. Fe wnaethon ni newid hyn trwy chwythu'r holl borthiant oedd yn cael ei brynu i mewn i lofft, sy'n lleihau gallu bywyd gwyllt i fynd ato. Roedd trafodaeth bellach hefyd am leihau cyswllt peryglus rhwng gwartheg a moch daear a allai grwydro ar dir gerllaw, a wnaeth ein harwain at geisio gwneud brechu moch daear rhag bTB yn fwy hygyrch yng ngogledd Cymru. Mae'r gwaith hwn yn parhau.

Fe wnaethon ni ddefnyddio'r adroddiad cyfradd risg bTB, sy'n dadansoddi canlyniadau profion bTB hanesyddol i roi cyfraddau risg bTB ar gyfer pob buwch ar y fferm. Yn ffodus, gan nad ydyn ni erioed wedi cael adweithydd bTB ar y fferm, dim ond un fuwch risg Coch ac un fuwch risg Ambr oedd yma. Ar ôl gwrando ar y ffermwyr a'r milfeddygon o Brosiect Sir Benfro, y byddai llawer ohonyn nhw'n rhoi'r byd am fod yn yr un sefyllfa gydag un fuwch risg Goch ac a fyddai'n gwaredu ar unwaith, fe wnaethon ni benderfynu gwaredu'r fuwch yma gyda'r nod o 'gadw (bTB) allan'. Roedd y fuwch risg Ambr yn gyflo ers pum mis, felly gwnaed y penderfyniad i'w chadw nes y byddai'n lloia ond na fyddai'n dychwelyd wedyn.

# Ed Clements, Broomhill, Martletwy



Buches sy'n lloia yn niwedd yr haf, dechrau'r hydref yw Broomhill, ac mae wedi bod yn fuches gaeedig ers dros 25 mlynedd. Mae'r fferm wedi dioddef achosion o bTB ers blynyddoedd lawer.

Fel rhan o Brosiect Sir Benfro, a chyda chymorth Rob Davies o ProStock Vets, rydyn ni'n defnyddio data profion croen bTB hanesyddol o oes y fuwch i bennu cyfradd risg ar gyfer pob buwch. Gan ddibynnu ar y canlyniadau, gallwn fridio yn ôl hynny, ac mae buchod risg uchel naill ai'n cael eu rhoi i deirw biff neu eu gwaredu.

Rydyn ni wedi defnyddio cofrestr risg clefyd Johne yn llwyddiannus, a thrwy gymryd y camau angenrheidiol, rydyn ni wedi cael gwared ar glefyd Johne o'r fuches. Rydyn ni'n bwriadu gwneud yr un peth ar gyfer bTB.

Rydyn ni hefyd wedi defnyddio'r offeryn sgorio bioddiogelwch i ystyried llwybrau trosglwyddo eraill, ac rydyn ni wedi defnyddio camerâu bywyd gwyllt yn yr adeiladau a'r ardaloedd pori ac o'u cwmpas. Dangosodd hyn y gallwn wella ein hymdrechion i atal ymweliadau gan fywyd gwyllt.

Rydyn ni hefyd wedi gwneud rhywfaint o brofi gwaed stoc ifanc. Rydyn ni'n gobeithio, gyda'r canlyniadau a'r ymchwil, y gallwn bennu amseriad y trosglwyddo ac, o bosibl, archwilio dulliau atal at y dyfodol, fel pasteureiddio llaeth a roddir i loi.

Gan weithio a dysgu ochr yn ochr â ffermwyr eraill sy'n cymryd rhan, milfeddygon, a thîm ymroddedig ym Mhrifysgol Aberystwyth, trwy ymchwil newydd, dadansoddi data, ac ymroddiad, teimlwn fod y prosiect wedi rhoi'r offer a'r hyder i ni leihau'r achosion bTB a, gobeithio, ei waredu yn y dyfodol.

# Roger Ridgway, Clovers Farm, Treletert



A ninnau'n fferm organig, roedd dwysedd stocio isel a meddyginiaeth ataliol eisoes yn hollbwysig. Roedd profi llaeth yn chwarterol am glefyd Johne, trimio traed yn gyson, a sylw manwl i hwsmonaeth y lloi yn rhan o'r patrwm. Roedd hyn yn amlwg yn ystod yr ymweliad bioddiogelwch "HerdSafe" a gynhaliwyd gan Rhiannon Lewis o Gwaun Vets, ac fe roddwyd sgôr gychwynnol o 521. Heintiad gweddilliol yn y fuches a phresenoldeb moch daear oedd y prif bwyntiau negyddol.

Roedd y rhestr RiskRate, am y tro cyntaf, yn gadael i adweithiau i'r prawf bTB fod yr un mor bwysig â pharamedrau iechyd eraill, gan sicrhau y gallai bTB gael ei drin yn yr un modd â phob afiechyd neu gyflwr sy'n effeithio ar y fuches. Anodwyd data iechyd cyfamserol arall y fuches – cyfrif Celloedd Somatig (SCC) uwch na 200, achosion o fastitis, canlyniadau clefyd Johne canolig neu uchel, anifeiliaid Adwaith Amhendant (IR sydd wedi'u clirio), ac achosion o gloffni – a marciwyd y cyfan wrth rif pob buwch.

Yn awr, gall penderfyniadau bridio, lloia, porthi a gwaredu fod yn seiliedig ar lawer o gyflyrau iechyd o un adnodd syml, gan sicrhau'r fuches iachaf a stoc cyfnewid iach. Roedd merched yn y fuches hefyd yn cael eu hanodi, gan roi darlun rhagweithiol o'r risg gymharol anhysbys o drosglwyddo bTB o'r fuwch i'r llo.

Mae rhestr yn hongian yn y llaethdy, gan gynnig ffordd hawdd o wneud penderfyniadau rheoli penodol. Wrth fynd at y tarw, nid yw buchod Coch ac Ambr yn cael eu defnyddio i fagu stoc llaeth cyfnewid. Wrth loia, mae'r buchod yma yn cael eu gwahanu i atal halogi'r gorlan loia. Os bydd rhaid godro colostrwm a'i rewi, yna ar gyfer y lloi biff yn unig y mae. Mae'n bwysig bod yr holl golostrwm sy'n cael ei gasglu yn cael ei labelu â rhif y fam a chyfradd risg, gan roi cyfle i ddefnyddio dull cyfredol, rhagweithiol bob amser.

Mae bod yn rhan o'r prosiect hwn wedi rhoi cyfle i mi ddefnyddio agwedd wedi'i thargedu at reoli bTB ar fy fferm. Rydyn ni wedi bod â statws 'heb bTB' swyddogol drwy gydol y prosiect, a chyda help fy milfeddyg, rydyn ni wedi datblygu cynllun i leihau'r risg y bydd bTB yn dod i'm buches, gan wella camau bioddiogelwch a chael gwared ar anifeiliaid risg uchel oddi ar y fferm.

# Eurig Jones, Hendre, Ynys Môn



Ar ddechrau Prosiect TB Gogledd Cymru, roeddwn yn amheus. Roeddwn yn meddwl beth all grŵp o ffermwyr a milfeddygon ei gyflawni wrth geisio cael gwared ar TB gwartheg (bTB). Felly, roedd fy milfeddyg Anna Williams, o Wern Vets Cyf, yn gwybod bod ganddi ffermwr mwy heriol i weithio gydag o! Ond roedd hynny mewn ffordd dda, realistig, ac yn gynrychioliadol o lawer o ffermwyr eraill allan yna.

Ar ôl gweld y datblygiadau a'r offer sy'n dod ar gael i helpu yn y frwydr yn erbyn bTB, rydyn ni wedi dod yn llawer mwy gobeithiol at y dyfodol.

Dwi'n credu rŵan fod gan ffermwyr unigol offer defnyddiol iawn ar gael iddyn nhw i helpu i ddiogelu eu ffermydd unigol rhag bTB, ac o ganlyniad, maen nhw'n gallu helpu i ddiogelu eu cymdogion a chyfrannu at y frwydr yn erbyn bTB yn gyffredinol. Yr offer mwyaf defnyddiol sydd wedi'u cyflwyno i mi yw'r mapiau ibTB sy'n helpu ffermwyr i ddynodi ffermydd/ardaloedd mwy diogel i brynu gwartheg – a'r system oleuadau traffig RiskRate ar gyfer yr holl wartheg sydd eisoes ar y daliad, sy'n ein helpu i ddewis anifeiliaid risg uchel i'w gwaredu cyn iddyn nhw ddod yn adweithwyr.

Wrth feddwl am y dyfodol, dwi'n siŵr y bydd llawer mwy o offer yn dod ar gael yn fuan – efallai brechiad wnaiff weithio i wartheg, hyd yn oed. Rhaid i ni i gyd barhau mor gadarnhaol ag sy'n bosibl yn y frwydr hon yn erbyn bTB a chroesawu unrhyw beth all ein helpu i warchod ein buchesi, a'n bywoliaeth.



# David a Debbie Best, Treathro, Abergwaun



Fe ddaethon ni i Dreathro, fferm ar yr arfordir ychydig filltiroedd o Wdig, yn 2017 ac mae gennym fuches fagu fechan o fuchod Coch Dyfnaint pedigri. Gyda'r môr yn derfyn ar un ochr, does gennym ddim unrhyw gyswllt trwyn wrth drwyn â gwartheg cymdogion, ond rydyn ni wedi adnewyddu'r holl ffensys i sicrhau bod y terfynau yn ddigon diogel. Mae'r holl ddeyerydd moch daear wedi'u ffensio, gan atal unrhyw gyswllt uniongyrchol rhwng y gwartheg a'r deyerydd.

Roedd ein prawf positif cyntaf yn 2021 (un oedd â phrawf amhenodol ddwywaith). Fe wnaethon ni benderfynu dechrau brechu'r moch daear, gan nad oedd unrhyw ffynhonnell allanol amlwg i'r heintiad, a dwy ddaear moch daear ar y fferm. Roedd hyn yn ymddangos fel un cam cadarnhaol y gallen ni ei gymryd. Cwblhawyd y brechu yn 2022 (2 fochyn daear), 2023 (4 mochyn daear), 2024 (4 mochyn daear), ac yn 2025 (6 mochyn daear).

Mae ein sefyllfa bTB ers hynny wedi bod yn amrywiol, gyda naill ai cwpl yn adweithio a chanlyniadau amhenodol yn gymysg â phrofion clir.

Cysylltwyd â ni i holi am ymuno â Phrosiect Sir Benfro yn Ionawr 2024, ochr yn ochr â'n milfeddyg, Rachel Latter, o Fishguard Vets. Daeth ein hadroddiad Cyfradd Risg cyntaf yn Hydref 2024 ac amlygu ffynhonnell bosibl i'r broblem – grŵp bychan o heffrod yr oedden ni wedi'u prynu yn Ionawr 2020 oddi ar fferm yng Ngwlad yr Haf nad yw erioed wedi bod dan gyfyngiadau bTB. Roedd pedair o'r chwech â chyfradd Goch, un yn Ambr, ac un yn Felyn. Rydyn ni wedi gwaredu pedair o'r rhain erbyn hyn, a bydd y ddwy arall yn cael eu gwaredu yn 2026.

Mae bod yn rhan o'r Prosiect wedi rhoi perchenogaeth i ni dros ein sefyllfa bTB a'n galluogi i gymryd camau rhagweithiol i ymladd yn erbyn yr afiechyd.

# Michael Williams, Fagwrfran East, Cas-mael




Fe wnaeth ein hymweliad bioddiogelwch HerdSafe cyntaf, a gynhaliwyd gan Rhiannon Lewis, Gwaun Vets, roi inni sgôr ar sail risg o 1178, sef yr uchaf ymhlith ffermydd Prosiect Sir Benfro. Fe wnaethon ni ddynodi bod prynu buchod godro fel oedolion o ardaloedd risg uchel ac isel, chwalu slyri gan gontractwyr, heintiad gweddilliol yn y fuches, a phresenoldeb moch daear, i gyd yn cyfrannu at y sgôr uchel.

Fe wnaeth y fferm fabwysiadu polisi buches gaeedig ar unwaith. Mae'r heffrod llaeth cyfnewid yn aros ar y fferm, a does dim unrhyw anifeiliaid yn dychwelyd o ddaliad arall. Mabwysiadwyd polisi 'dim ymwelwyr' na chontractwyr slyri, ac ni chwalwyd unrhyw slyri ar yr ardal bori o fewn pum mis o'i phori. Gosodwyd gorsafoedd diheintio rhwng grwpiau stoc, a phenodwyd man casglu stoc marw yn nes at fynedfa'r fferm, gan leihau'r risg o ledaenu heintiau.

Cadarnhaodd camerâu bywyd gwyllt fod moch daear o ddeyerydd y tu hwnt i'r gwrych terfyn ar lwybrau'r gwartheg a thuag at siediau'r gwartheg. Codwyd ffens drydan 3 llinyn ar 5, 10 a 15cm ar hyd terfyn y fferm. Mae hyn yn diogelu'r fuches rhag risg trosglwyddiad uniongyrchol ac anuniongyrchol o bTB oddi wrth foch daear wedi'u heintio ac mae hefyd yn diogelu moch daear sy'n crwydro rhag cael eu heintio o'r fuches sydd â heintiad gweddilliol, a thrwy hynny ddiogelu ffermydd cyfagos ac atal y cylch o ailheintio.

Rydyn ni wedi datblygu ein Gweithdrefn Weithredu Safonol (SOP) i hwyluso penderfyniadau bridio, lloia a gwaredu gan ddefnyddio'r data cyfradd Risg. Mae hyn yn cynnwys peidio â bridio stoc cyfnewid o anifeiliaid risg uchel. Mae'r anifeiliaid yn lloia mewn corlannau unigol wedi'u glanhau a'u diheintio â rhoddir cholostrwm powdr a powdr llaeth iddyn nhw i leihau'r risg o drosglwyddo afiechyd o'r fam i'r llo ac i roi'r dechrau iachaf i'r stoc cyfnewid at y dyfodol.

Gyda'r camau yma yn eu lle, mae ein bioddiogelwch wedi gwella, ac rydyn ni wedi cael sgôr HerdSafe o 164 yn yr ail flwyddyn.

# Geraint Owen, Sandilands, Tywyn



Rydyn ni'n fferm biff gyda 350 o fuchod wedi'i rhannu dros bedwar daliad yn yr ardal risg isel a chanolig yng ngogledd/gorllewin Cymru. Rydyn ni wedi bod â statws 'heb bTB' swyddogol ers 2015. Yn y gorffennol, roedden ni dan gyfyngiadau yn dilyn achos mewn lladd-dy. Oherwydd yr hanes yma, roedd ein pwyslais wrth ddod i mewn i'r prosiect ar fioddiogelwch. Fe wnaeth yr ap HerdSafe ddynodi ardaloedd yn y system ffermio lle gellid gwella bioddiogelwch. Roedd y system sgorio ar yr ap yn gwneud dynodi'r newidiadau fyddai'n cael mwyaf o effaith yn rhwydd.

Trwy weithio gyda'n milfeddyg, Alice Jones o Milfeddygon Williams, yn ystod ein hymweliad iechyd y fuches, fe wnaethon ni ddynodi mai'r ffactor â'r mwyaf o risg oedd prynu gwartheg i mewn o sawl ffynhonnell, ac roedd y data RiskRate yn adlewyrchu hyn.  Mae'r rhan fwyaf o'r stoc cyfnewid yn cael eu magu gartref, ond yn flynyddol, rydyn ni'n prynu llawer o fuchod a lloi i mewn, neu fuchod cyflo, o'r farchnad neu o arwerthiannau fferm fel arfer. Ar hyn o bryd, nid yw statws bTB y fferm wreiddiol, neu lefel risg yr ardal, yn brif ystyriaeth wrth brynu anifeiliaid. Fe wnaethon ni drafod ffyrdd i liniaru'r risg, a wnaeth helpu i ostwng ein sgôr risg yn sylweddol.

Dod yn fuches hollol gaeedig yw'r ffordd orau i liniaru'r risg sy'n gysylltiedig â phrynu, ond byddai prynu o un fuches lle mae'r statws afiechyd a bTB yn hysbys ac yn cael eu monitro yn ail ddewis gorau. Fe wnaethon ni drafod defnyddio'r platfform ibTB gydag Alice i ddynodi statws bTB y fuches wreiddiol a'r ardal leol, a sut gall hyn gael ei ddefnyddio yn y farchnad i helpu i fod yn sail i benderfyniadau prynu.

Y brif risg arall a ddynodwyd yn ystod ein hymweliad oedd bywyd gwyllt. Cafwyd tystiolaeth o fywyd gwyllt yn y storfeydd porthiant, felly mae lleihau eu gallu i gael mynediad atyn nhw'n flaenoriaeth. Rydyn ni hefyd yn bwriadu monitro gweithgaredd moch daear gan ddefnyddio camerâu. Rydyn ni'n gobeithio mynd i'r afael â'r rhain yn y dyfodol agos.

# Paul Williams, Cae Haidd, Llanrwst



Diolch byth, dydw i erioed wedi profi bTB ar fy fferm. Felly, pan gysylltwyd â mi gyntaf i fod yn rhan o Brosiect TB Gogledd Cymru, rhaid i mi gyfaddef bod gen i fy amheuon o ran beth allwn i ei gyfrannu at y prosiect a sut gallai fy musnes gael budd ohono. Ond o! roeddwn i'n anghywir!

Mae bod yn rhan o'r grŵp hwn wedi gwella fy ngwybodaeth am yr afiechyd torcalonnus hwn yn fawr iawn, ac yn bwysicach, mae wedi fy helpu i ddeall beth ellir ei wneud ar y cyd i liniaru'r risg y bydd afiechyd yn cael ei gyflwyno.

Heb amheuaeth, un o'r agweddau mwyaf buddiol o waith y Grŵp i mi oedd y berthynas broffesiynol gryfach a mwy ymroddedig gyda fy milfeddyg lleol.

Trwy weithio gyda fy milfeddyg, Anna Williams (Milfeddygon Wern Cyf), mae gen i rŵan yr hyder i gydweithio gyda gweithiwr proffesiynol sydd wir yn deall fy musnes a'r hyn rydyn ni'n gweithio ynddo, gan fy helpu i ddynodi sut a ble y gallwn ni weithredu newidiadau ymarferol i leihau'n sylweddol y risg o gyflwyno bTB i'r fferm.

Mae cymryd rhan ym mhrosiect Grŵp TB Gogledd Cymru wedi fy ngalluogi i gael mynediad at unigolion sy'n arbenigwyr yn eu meysydd, yn ogystal â thechnoleg arloesol a data i helpu i werthuso a monitro'r risgiau o ran yr afiechyd.

Bu rhannu profiadau a syniadau gyda chyd-ffermwyr yn y grŵp hefyd yn ymarfer amhrisiadwy. Rydyn ni i gyd wedi cyfrannu'n gadarnhaol at y gwaith, sy'n beth braf iawn, gan gydnabod y gallwn, ar y cyd, ddylanwadu ar newidiadau cynnil yn ein busnesau a all arwain at ostyngiadau sylweddol yn y risg o afiechyd.

Gobeithio y gallwn barhau i symud y Prosiect ymlaen fel bod ein profiadau – y da a'r drwg – yn gallu cael eu rhannu ar draws y diwydiant cyfan i sicrhau y gallwn ddechrau teimlo bod gennym rywfaint o annibyniaeth ar sut i atal heintiad bTB ar ein ffermydd, a'r un mor bwysig, leihau'r risg ehangach o heintio.

# Barn Milfeddyg

## Brendan Griffin, Fenton Vets ac Iechyd Da




Mae Prosiect Sir Benfro wedi bod yn newid mawr i mi wrth i mi ailymgysylltu â'm ffermwyr am bTB. Mae bTB wastad wedi cael ei weld fel afiechyd llywodraethol, ac mae llawer o ffermwyr a milfeddygon wedi datblygu ymdeimlad o ffataliaeth. Ond mae'r ffordd o feddwl yn newid yn Sir Benfro o orfodaeth i alluogi.

Trwy ddadansoddi canlyniadau profion croen sydd ganddyn nhw i ddynodi anifeiliaid risg uchel (yr afalau drwg) mae ffermwyr a milfeddygon yn cael eu galluogi i gymryd meddiant ar eu sefyllfa bTB ar lefel y fferm. Trwy ddefnyddio'r dull tebyg i glefyd Johne – trwy ddefnyddio'r rhestr goleuadau traffig 'RiskRate' – gall tîm y ffermwr a'r milfeddyg reoli risg yn well yn y fuches, boed hynny trwy benderfyniadau bridio neu waredu, mewn ffordd fwy cynaliadwy. Y canlyniad yw dull sy'n fwy o 'brofi a rheoli', yn hytrach na'r dull 'profi a gwaredu', nad yw'n gynaliadwy.

Rydyn ni'n dynodi'r anifeiliaid risg uchel yn y fuches ac yn cymryd camau rheoli i leihau'r risg, ac mae'n dod yn amlwg bod angen i ni ddiogelu'r fuches gyfan rhag risgiau allanol trwy well bioddiogelwch ar y fferm. Mae'r ap sgorio bioddiogelwch HerdSafe yn offeryn defnyddiol iawn i drafod sut i reoli risg ym mhob ardal o'r fferm. Rhoddir sgôr wedi'i phwysoli i bob risg o ran bioddiogelwch, a chyfrifir sgôr gyffredinol. Mae'n duedd naturiol bod eisiau gwella'r sgôr hon o ymweliad i ymweliad yn ystod y prosiect.

Trwy gael RiskRate newydd ar ôl pob prawf croen (sy'n unigryw i'r fferm honno) a chael yr holl ddata heintiadau cydamserol ochr yn ochr, mae bTB yn awr yn rhan o'n Cynllun Iechyd y Fuches wrth symud ymlaen. Mae bTB yn awr yn cael ei weld yn yr un goleuni ag unrhyw afiechyd heintus arall, a gall tîm y ffermwr/milfeddyg, gan ddefnyddio dull tebyg i un clefyd Johne, wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth o ran y ffordd orau i reoli'r risg. Felly, mae Prosiect Sir Benfro wedi creu newid gwirioneddol.

## **Dysgu ac Addasu ar gyfer y dyfodol** (Sir Benfro a Gogledd Cymru)

Mae'r ddau brosiect bTB yn ein helpu i ddeall pa gefnogaeth sydd ei hangen ar ffermwyr a'u milfeddygon i reoli risgiau bTB ar eu ffermydd. Mae ymchwilwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth yn gweithio gyda ffermwyr, milfeddygon ac eraill i nodi beth sy'n gwneud camau gweithredu, fel mesur bioddiogelwch newydd, yn haws neu'n anoddach i'w cytuno a'u gwneud. Mae'r canfyddiadau hyn yn cael eu defnyddio i helpu milfeddygon y prosiect i roi cefnogaeth ymarferol, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, yn ystod ymweliadau a hyfforddiant arferol, ac yn hollbwysig i lunio polisïau ar y fferm yn y dyfodol.

## Sylwadau gan ffermwyr oedd yn rhan o'r prosiectau

*"Dydych chi ddim yn gwybod beth ddaw yn y dyfodol, felly does neb yn gofyn i ni eu gwaredu nawr. Mi wnes i wrando ar beth mae ffermwyr eraill yn ei wneud."*

*"Wrth weld eraill sydd wedi dechrau ar y cwrs hwn ers ychydig mwy na ni, mae'n ymddangos bod rhywfaint o welliant yn eu RiskRate."*

*"Mae llawer o ddata ar gael, yn arbennig os oes gennych chi nifer fawr o fuchod risg uwch. Yna, wrth fynd trwy hynny ar eich pen eich hun, mi allech gael trafferth, o bosibl, wrth wneud rhai penderfyniadau. Ond ie, os yw eich milfeddyg yna i'ch helpu i fynd trwyddo, rydych chi'n fwy tebygol o wneud y penderfyniad cywir."*

*"Felly mae hynny'n un peth sy'n dod allan o'r prosiect, yr olwg wahanol yna, y pwyslais gwahanol hwnnw."*

*"Bydd cael sgwrs fach bob hyn a hyn pan fydd gan y milfeddyg ychydig o amser yn beth da oherwydd mae'n gwneud i ni ailganolbwyntio ychydig."*

*"Mae'r prosiect yn arbennig o dda am ddod â ffermwyr at ei gilydd ac yna eu cael i drafod beth sy'n digwydd ar eu ffermydd, fel grŵp neu yn unigol. Mae hynny wedi bod o fantais, ac mae hynny'n sicr yn rhoi mwy o anogaeth i mi na phetawn i wedi bod yn derbyn rhywbeth trwy'r post yn unig."*

# Ymchwil bTB

## Deall sut mae bTB yn ymledu trwy ddefnyddio Dilyniannu Genom Cyfan (WGS) o *Mycobacterium bovis* a gafwyd o wartheg a bywyd gwyllt lleol.

Mae Dilyniannu Genom Cyfan (WGS) yn offeryn hanfodol i olrhain twbercwlosis gwartheg ymhlith gwartheg a bywyd gwyllt ledled Cymru. Trwy archwilio cyfansoddiad genynnol cyflawn y bacteria sy'n cludo'r afiechyd (Mycobacterium bovis), gall gwyddonwyr ddynodi achosion a'u patrymau trosglwyddo, gan roi gwybodaeth allweddol i reoli'r afiechyd. Mae Canolfan Ragoriaeth ar gyfer TB Gwartheg Sêr Cymru ym Mhrifysgol Aberystwyth (CBTB) yn defnyddio data WGS o wyliadwriaeth arferol APHA i wella ei hymdrechion.

Trwy ddadansoddi gwahaniaethau genynnol bychan yn y bacteria, gall ymchwilwyr ganfod dosbarthiad hil bTB o ran lleoliad, dangos achosion cysylltiedig, olrhain cadwyni trosglwyddo, a phennu a yw heintiadau yn gysylltiedig neu ar wahân. Mae'r dull genomig hwn, nid yn unig yn helpu i gadarnhau cysylltiadau rhwng buchesi sydd wedi'u heintio, ond hefyd yn datgelu llwybrau trosglwyddo cudd a allai fynd heb i neb sylwi arnynt fel arall, gan gynorthwyo i gael ymyrraeth wedi'i thargedu'n well i waredu bTB.



## Deall heintiad bTB yn y Boblogaeth Moch Daear

Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn ariannu goruchwyliaeth bTB ar foch daear a geir yn farw yng Nghymru ers 2014.

Fel rhan o Raglen Gwaredu TB Gwartheg Llywodraeth Cymru, mae'n hanfodol rhoi data am heintiadau bTB yn y gronfa bywyd gwyllt bwysicaf, Moch Daear Ewropeaidd (Meles meles). Darparwyd tystiolaeth trwy gontract i gasglu a chynnal archwiliadau post mortem ar foch daear a geir yn farw yng Nghymru. Anfonir samplau o'r moch daear yma i ganfod Mycobacterium bovis ac yna dilyniannu genom cyfan.

Mae'r canlyniadau yn cynorthwyo'r tîm Epidemioleg bTB yn APHA i roi tystiolaeth werthfawr. I filfeddygon a ffermwyr, mae'r canlyniadau yn cael eu cofnodi trwy ddangosfwrdd TB gwartheg Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/dangosfyrddau-tb-mewn-gwartheg-hyd-fis-medi-2025.

Yn ychwanegol at y dangosfwrdd, mae ffermwyr sy'n rhan o Brosiectau bTB Sir Benfro a Gogledd Cymru yn cael mapiau sy'n berthnasol i'w ffermydd yn dangos canlyniadau bTB moch daear. Mae'r rhain yn dangos a ddarganfuwyd moch daear â bTB o fewn 10km i'w daliad. O ganlyniad, mae ffermwyr yn gwybod beth yw statws moch daear lleol o ran yr afiechyd, sy'n eu helpu i benderfynu pa gamau bioddiogelwch i'w blaenoriaethu ar eu fferm.



### Er mwyn cofnodi mochyn daear marw yng Nghymru, ffoniwch 0808 169 5110.

Datblygwyd offer genynnol newydd ac maen nhw'n cael eu defnyddio gan wyddonwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth (gan gynnwys y CBTB) i ddeall strwythur a phatrymau symud poblogaethau o foch daear yn lleol. Mae deall sut mae moch daear yn symud yn allweddol, gan fod eu hymddygiad yn cael dylanwad ar drosglwyddo bTB ymysg ei gilydd ac i wartheg.

Mae'r CBTB yn gobeithio gweithredu'r offer genynnol newydd hyn mewn ardaloedd lle mae moch daear wedi'u brechu i helpu i sicrhau bod digon o foch daear wedi'u brechu i ddiogelu'r boblogaeth leol. Ar ben hynny, gall gwybodaeth am symudiadau moch daear lleol helpu i dargedu ymdrechion brechu yn fwy effeithiol. At ei gilydd, bydd cael dealltwriaeth o ymddygiad moch daear a'u demograffeg trwy ddulliau genynnol yn allweddol i reoli bTB mewn ardaloedd lle mae cylchoedd o drosglwyddo bTB rhwng gwartheg a moch daear yn digwydd a thrwy hynny ddiogelu'r anifeiliaid gwyllt a'r da byw.

## Lleihau'r risgiau o ledaenu TB gwartheg trwy adweithwyr amhenodol

Arweiniodd y cyngor arbenigol diweddaraf gan Grŵp Cynghori Technegol TB Gwartheg Cymru (bTBTAG) a Bwrdd y Rhaglen TB ar leihau'r risg o ledaenu TB gwartheg rhwng ffermydd at bolisi newydd yng Nghymru.

Mae'r polisi, sy'n weithredol o 1 Ionawr 2026, yn cyfyngu ar adweithyddion amhenodol (IR) safonol a gliriwyd am eu hoes.

Mae adweithydd amhenodol safonol yn anifail sydd wedi ymateb i'r prawf croen bTB ond nid yn ddigonol i'r ymateb gael ei ddosbarthu fel adweithydd llawn yn ôl y dehongliad safonol.

Mae'n ofynnol i adweithyddion amhenodol gael eu cadw ar wahân i wartheg gyda phrawf clir ac ailadrodd y prawf croen ar ôl lleiafswm o 60 diwrnod. Os byddan nhw'n glir yn y prawf hwn, maen nhw'n dod yn adweithyddion amhenodol a gliriwyd. Mae'r rhai sy'n adweithio yn yr ail brawf yn cael eu dosbarthu fel adweithyddion ac yn cael eu gwaredu.

Mae'r polisi newydd yn ei gwneud yn angenrheidiol i'r adweithyddion amhenodol a gliriwyd gael eu cadw ar y safle lle cawson nhw eu dynodi am weddill eu hoes, ac maen nhw ond yn cael eu symud oddi arno er mwyn cael eu lladd. Mae hyn yn berthnasol i unrhyw brawf croen a gyflawnwyd ar ddaliad yng Nghymru. Bydd hysbysiad cyfyngu ar gyfer yr anifail unigol yn cael ei roi gan APHA. Yr unig symudiadau a ganiateir oddi ar y safle fydd i'w lladd naill ai yn uniongyrchol; trwy gasgliad lladd cymeradwy; trwy arwerthiant penodol i wartheg â bTB (marchnad oren); neu Uned Orffen Gymeradwy (AFU). Rhaid i unrhyw symud fod trwy drwydded a roddir gan APHA.

### Pam cyfyngu ar yr adweithyddion amhendant yma?

Mae llawer o astudiaethau, gan gynnwys yr Adolygiad Godfray a gyhoeddwyd yn ddiweddar, wedi canfod bod adweithyddion amhenodol a gliriwyd mewn llawer mwy o risg o ddod yn adweithyddion yn ystod eu hoes nag anifeiliaid sy'n cael prawf clir. Ar ben hynny, mae'r bwlch amser cyn prawf bTB newydd mewn buchesi sy'n cynnwys dim ond adweithyddion amhenodol (heb adweithyddion) yng Nghymru a Lloegr yn hanner yr un i fuchesi gyda Phrawf Buches Gyfan negyddol.

Mae adweithyddion amhenodol a gliriwyd, felly, yn llawer mwy tebygol o fod yn gronfa i'r bacteria bTB (Mycobacterium bovis) a throsglwyddo'r haint i wartheg eraill. Mae eu cyfyngu i un safle yn lleihau'r risg o heintio buches arall ac yn caniatáu i'r anifail gael ei reoli allan o'r fuches neu ei ladd, dan reolaeth y ceidwad. Ar sail eu lefel risg, bydd pob un yn cael ei ddosbarthu fel risg uchel (coch).



TB Gwartheg: Cyfyngiadau am oes ar Adweithyddion Amhendant safonol sydd wedi'u clirio.


# Yn chwilio am **wybodaeth am TB** gwartheg yn y Deyrnas Unedig?

Y **TBhub** yw'r lle i fynd i gael cyngor ymarferol am ymdrin â bTB ar eich fferm.

Mae'r wefan yn adnodd amhrisiadwy sy'n cwmpasu:

- Cyngor yn ystod profion bTB positif
- Cyngor ar atal profion bTB positif
- Profion bTB ar wartheg, gan gynnwys gwahanol fathau o brofion a'r defnydd ohonyn nhw
- Polisi TB gwartheg
- bTB ymhlith moch daear a cheirw gwyllt
- bTB ymhlith anifeiliaid sydd ddim yn wartheg
- Cysylltiadau defnyddiol

Mae cyfoeth o wybodaeth ac adnoddau ar y safle, gan gynnwys llawer o daflenni ffeithiau am bynciau fel profion, bTB yn yr amgylchedd, bioddiogelwch a bTB a bywyd gwyllt.



## Rheoli risgiau bTB yn eich buches gan ddefnyddio ibTB

Offeryn mapio rhyngweithiol ar-lein yw ibTB sy'n dangos profion TB positif sy'n parhau a'r rhai sydd wedi eu clirio mewn buchesi gwartheg yng Nghymru a Lloegr dros y deng mlynedd diwethaf. Datblygwyd y system i helpu ffermwyr i ddiogelu eu gwartheg rhag heintiad bTB trwy roi gwybodaeth ddaearyddol ar ddosbarthiad y profion positif bTB cyfredol a hanesyddol.


Mae'r offer mapio yn gadael i chi chwyddo i mewn i lefel yr achosion positif unigol a dynodi rhif daliad y safle sydd wedi ei effeithio (CPHH). Mae'r label ar gyfer y daliad yn cofnodi'r dyddiad pan roddwyd cyfyngiadau (dyddiad TB02) a'r dyddiad y codwyd y cyfyngiadau (dyddiad TB10) pan fydd achosion wedi eu clirio. Mae'r system hefyd yn rhoi manylion anifeiliaid unigol a'r ddwy fuches fwyaf diweddar lle maen nhw**.

Defnyddiwch ibTB:

- Gael gwybod am y sefyllfa bTB yn eich ardal leol
- Edrych ymhellach i asesu risgiau wrth symud neu brynu gwartheg
- Edrych pa mor hir y mae daliad wedi bod heb bTB
- Dynodi lleoliadau Unedau Gorffen Cymeradwy (AFU)
- Edrych ar fanylion unigol anifeiliaid a'u lleoliad trwy rif tag clust**

**Ar gael ar gyfer anifeiliaid o Loegr yn unig. Bwriedir rhoi mynediad at ddata anifeiliaid yng Nghymru ganol i ddiwedd 2026.

**ibTB** https://ibtb.co.uk



# Geirfa

| | |
|---|---|
| **AFU** | Uned Orffen Gymeradwy |
| **APHA** | Asiantaeth Iechyd Anifeiliaid a Phlanhigion |
| **ATT** | Profwyr Twbercwlin Cymeradwy |
| **bTB** | Twbercwlosis Gwartheg |
| **bTBTAG** | Grŵp Cynghori Technegol bTB |
| **CBTB** | Canolfan Ragoriaeth ar gyfer TB Gwartheg |
| **CPHH** | Rhif Sir, Plwyf, Daliad, Buches |
| **CPD** | Datblygiad Proffesiynol Parhaus |
| **Enferplex** | Prawf gwrthgyrff gwaed ar gyfer bTB |
| **ibTB** | Offeryn mapio rhyngweithiol ar-lein |
| **IR** | Adweithydd Amhenodol |
| ***M.bovis*** | *Mycobacterium bovis* |
| **OTF** | Statws heb bTB swyddogol |
| **OTFW** | Statws heb bTB swyddogol wedi'i ddiddymu |
| ***Digwyddiadau*** | bTB **parhaus** yw'r rhai sydd wedi bod o dan gyfyngiadau bTB am 550 diwrnod neu ragor, neu lle mae digwyddiad parhaus a gafodd ei ddatrys yn dod yn ddigwyddiad newydd o fewn 6 mis. |
| **SCC** | Cyfrif Celloedd Somatig |
| **SICCT** | Prawf Sengl Twbercwlin Serfigol Cymharol Dan y Croen |
| **TB02** | Tystysgrif yn rhoi daliad dan gyfyngiadau oherwydd bTB |
| **TB10** | Tystysgrif yn codi cyfyngiadau hysbysiad TB02 oddi ar ddaliad |
| **WGS** | Dilyniannu Genom Cyfan |
| **Awduron** | Aelodau o brosiectau bTB Sir Benfro a Gogledd Cymru, a ariannwyd gan Lywodraeth Cymru. **Paratowyd** gan Beverley Hopkins BVetMed PGCertVEPH FHEA MRCVS |


**Am fwy o wybodaeth cysylltwch a:**

**Mentera:** post.gia@mentera.cymru

**Iechyd Da:** info@iechydda.cymru

**Prifysgol Aberystwyth University:** ibtstaff@aber.ac.uk